# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Gorffennaf 2021

Amser: 09.15 - 10.08

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/12401) yn:

[http://senedd.tv/cy/12401](http://senedd.tv/cy/12401)

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd)<br>Phil Boshier (Ymchwilydd)<br>Catherine McKeag (Swyddog)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Chweched Senedd.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ond bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv).

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Ken Skates AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Ni chafwyd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

## 2 Cylch gwaith y Pwyllgor

6.2 Nododd yr Aelodau y cylch gwaith.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 3.1 Fforwm y Cadeiryddion

### 3.2 Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc

### 3.3 Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc

### 3.4 Iechyd meddwl amenedigol

### 3.5 Addysg heblaw yn yr ysgol

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod am weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Gweithdrefnau'r pwyllgor a ffyrdd o weithio

5.1 Nododd yr Aelodau'r Rheolau Sefydlog sy'n llywodraethu busnes pwyllgor a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r Pwyllgor yn ei waith.

5.2 Bu'r Aelodau'n trafod ac yn cytuno ar ddull cychwynnol o:

- Drefnu busnes, gan gynnwys amseroedd a fformatau’r cyfarfod.

- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu.

- Briffiau pwyllgor a dewisiadau iaith.

## 6 Dull gweithredu strategol o ran cylch gwaith y Pwyllgor

6.1 Cytunodd yr Aelodau i ymgymryd â gweithgarwch yn nhymor yr hydref i ddatblygu a mabwysiadu dull strategol o wneud gwaith pwyllgor.

6.2 Nododd yr Aelodau bwysigrwydd:

- Sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed mewn gwaith pwyllgor.

- Mynd ar drywydd cyfleoedd i weithio ar y cyd â phwyllgorau eraill, lle bo hynny'n briodol.

## 7 Gweithgarwch cynnar y Pwyllgor

7.1 Cytunodd yr Aelodau i lansio ymgynghoriad â rhanddeiliaid dros yr haf gan wahodd safbwyntiau ar beth ddylai blaenoriaethau'r pwyllgor fod, i lywio ei gynllun strategol a'i raglennu gwaith tymor hwy. Byddai'r dyddiad cau ar ôl gwyliau'r ysgol gan ganiatáu cyfle i bobl mewn ysgolion gyfrannu.

7.2 Cytunodd yr Aelodau hefyd i gynnal gweithgarwch ymgysylltu wedi'i deilwra gyda phlant a phobl ifanc yn nhymor yr hydref, i ofyn am eu safbwyntiau ar flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd.

7.3 Bu'r Aelodau'n trafod ac yn cytuno i wahodd y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog/Dirprwy Weinidog Iechyd i gyfarfod cyntaf tymor yr hydref, i drafod eu

blaenoriaethau. Nododd yr Aelodau yr angen i gysylltu â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro a achosir gan amserlen y pwyllgor. Gofynnir am bapur ysgrifenedig ymlaen llaw i lywio'r sesiwn.

7.4 Cytunodd yr Aelodau i gyhoeddi prif raglen waith ar sail dreigl.